

**CYNGOR TREF
MAESTEG**



**MAESTEG
TOWN COUNCIL**

**Dirprwy Glerc y Dref / Swyddog Cyllid Cyfrifol
25 AWR YR WYTHNOS
(rhoddir amser i ffwrdd am oriau ychwanegol sy'n cael eu cronni)**

GWIR GYFLOG: £23,127 - £25,558 (Gradd LC2 Pwyntiau 24-28)

Mae cyfle cyffrous wedi codi i Ddirprwy Glerc Tref gynorthwyo Cyngor y Dref i gyflawni ei rôl i'r gymuned. Bydd deiliad y swydd yn helpu Clerc y Dref gyda phob agwedd ar fywyd y Cyngor, gan gynnwys dyletswyddau gweinyddol, cymryd cofnodion ffurfiol, a chaffael a chynllunio digwyddiadau. Gan weithio o Swyddfa'r Cyngor, rhaid i ymgeiswyr allu dangos bod ganddynt brofiad o reoli swyddfa a gwaith gweinyddol; y gallu i ddeall gweithdrefnau llywodraeth leol; profiad o weithio gyda'r cyhoedd; dealltwriaeth o gofnodion ariannol, sgiliau TG cymwys a pharodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi parhaus.

Bydd yr oriau gwaith ar ddiwrnodau penodol yn ystod yr wythnos (i'w cytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus), a bydd yn cynnwys gweithio'n rheolaidd gyda'r nos fel rhan o gyfarfodydd ac yn achlysurol ar benwythnosau ar gyfer digwyddiadau.

I gael rhagor o fanylion, y disgrifiad swydd llawn a'r ffurflen gais, anfonwch e-bost at y Clerc Mrs Siân Teisar: Clerk@maestegcouncil.org

DYDDIAD CAU: Hanner dydd, 7 Gorffennaf 2025

CYFWELIADAU: 18 Gorffennaf 2025 – dim ond y rhai sy'n cyrraedd y rhestr fer fydd yn cael adborth